"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 8fed Gorffennaf, 2024**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.45 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Iwan James Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

28. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

29. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

30. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 10fed MEHEFIN, 2024**
Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Mehefin, 2024.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi

(a) Eitem 19 Cae Capel, Botwnnog – Cais Cynllunio C24/0205/32/LL
Cyflwynwyd llythyrau oddi wrth Gyngor Cymuned Llannor a Chyngor Cymuned Llanllechid yn cefnogi safbwyntiau'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais uchod. (Copi o'r ddau lythyr wedi eu hanfon at yr aelodau gyda'r rhaglen).
Penderfynwyd anfon y ddau lythyr ymlaen i'r Swyddog Cynllunio a chydnabod eu derbyn.

(b) **Eitem 21 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**
Cyflwynwyd
(i) Ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor i'r cwynion anfonwyd i'w sylw:
(a) "Groesffordd Tŷ Mawr Capel, Bryncroes
Mae cyfarwyddyd wedi'i roi i Camddwr i flaenoriaethu'r gwaith, a cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol mae wedi'i gyflawni.

(b) Saithbont, Botwnnog
Mae trefniant wedi'i wneud efo'r uned waith i farbio'r tro.

(c) Tŷ Mawr Capel, Bryncroes
Mae ticed gwaith eisoes wedi'i wneud i dynnu'r glaswellt oddi ar ganol y ffordd a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

(ch) Brookside, Bryncroes
Mae ticed gwaith eisoes wedi'i wneud a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael."

(ii) **Ymateb** Uwch Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd, ynglyn a gosod drych ym mhentref Sarn Mellteyrn:

"Nodwn eich pryder ynglŷn â gweledd ar y gyffordd / croesffordd dan sylw ond yn anffodus nid yw Cyngor Gwynedd yn gyffredinol yn cefnogi gosod drychau oherwydd mae tystiolaeth yn dangos yn hytrach na gwella diogelwch y gallai drych gynyddu risgiau diogelwch, sydd wedi ei nodi isod:

- Gall drychau achosi gostyngiad yng ngallu modurwyr i farnu cyflymder cerbydau sy'n dod tuag atynt.
- Gall gosodiad greu dibyniaeth afresymol ar y drych.
- Os bydd drych yn mynd yn fudr (sy'n cynnwys anwedd) gall hyn ystumio neu gyfyngu gweledd.
- Yn aml caiff drychau eu difrodi gan ddamweiniau neu eu fandaleiddio.
- Mae cynnal aliniad drych a glendid yn fater priodol.
- Gall drychau fod yn beryglus i ddefnyddwyr eraill y ffordd oherwydd adlewyrchiad golau'r haul neu golau cerbydau yn y nos.
- Gellir cyfyngu ar weledd cerbydau sy'n dod allan o ffyrdd gyferbyn.
- Gallai dibynnu ar ddelwedd gyfyngedig y drych beryglu diogelwch defnyddwyr ffyrdd eraill (cerddwyr a beicwyr) nad ydynt yn ymddangos yn y drych yn enwedig yn ystod tywydd gwael.
- Gall drychau fod yn ddryslyd i fodurwyr sydd yn anghyfarwydd gyda'r ardal.
- Gall fod yn anodd lleoli drychau yn foddhaol (yn enwedig ar groesffordd).

Rhaid cymryd camau rhesymol eraill a'u hystyried cyn gosod drych ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i ddata gwrthdrawiadau o ganlyniad uniongyrchol i faterion gweledd yn y lleoliad dan sylw gael ei amlygu i gefnogi unrhyw osodiad drych.
- Ni ddylai'r drych ymestyn uwchben y briffordd er mwyn rhwystro mynediad rhwydd i unrhyw gerbydau, cerddwyr neu farchogion.
- Pan na ellir gwella gweledd trwy docio neu dynnu gwrychoedd, coed, waliau neu rwystrau eraill, gellir ystyried drych.
- Pan nad yw cynllun gwella gweledd yn ymarferol, gellir ystyried gosod drych.
- Pan fo'r terfyn cyflymder ar y ffordd fawr yn uwch na 30mya gellir ystyried gosod drych.

Yn y sefyllfaoedd cyfyngedig lle mae drych i'w osod, yna mae'n rhaid cynnal adolygiad tua 12 mis o'r gosod i asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Os bydd y drych yn aneffeithiol, wedi'i ddifrodi neu wedi'i nodi fel pryder diogelwch mae gan Gyngor Gwynedd yr hawl i dynnu'r drych a'r strwythurau cynhaliol."

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth yn (i) a (ii) uchod.

(iii)**Ymateb** Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dwr Gwastraff ynglyn a'r arogl sy'n dod o'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff rhwng Trewen a Phen y Bont, Botwnnog, ac hefyd ymholiad ynglyn a'r tanceri ger Dolafon yn ystod y mis:

"Gan ddechrau gyda'r arogl yn dod o'n GTDG, mae'r pympiau SPS yn y gornel ger y ffordd a allai fod yn achosi'r arogl. Fe wnaethom egluro hyn yng nghyfarfod y cyngor cymuned lleol. Yn anffodus, gall problemau arogl fod yn anodd eu nodi felly dylai hyn gael ei adrodd ar unwaith drwy ein canolfan alwadau 24 awr ar 0800 085 3968. Er mwyn i ni allu ymchwilio ar yr adeg y maent yn digwydd, a byddai'n caniatáu inni gynnal rhai ymchwiliadau pellach. Yn y cyfamser, rydym yn bwriadu gosod offer monitro arogleuon i ganfod unrhyw lefelau o aroglau amgylchynol.

Gan droi at yr SPS, roedd y tancer a welwyd ar y safle o ganlyniad i rhwystr yn y brif bibell o'r safle i'r GTDG. Trefnwyd i'r brif bibell gael ei jetio a defnyddiwyd y tanceri i gynnal y llif. Gallaf gadarnhau fod hyn bellach wedi'i ddatrys.

Rwyf bellach wedi adolygu'ch cwyn yn llawn yn unol â'n gweithdrefn uwchgyfeirio ac os ydych yn parhau'n anhapus â'm hymateb, mae manylion a gwybodaeth am sut i wneud cais am adolygiad annibynnol i'w cael yn y llyfryn atodedig." (Nodyn – gwellir gweld y llyfryn ar wefan dwrcymru.com "Sut rydyn ni'n delio a'ch cwynion a'ch canmoliaeth. 2024/25."

Penderfynwyd :

Gofyn pryd y bu cyfarfod y cyfeirir ato ym mharagraff cyntaf o'u hatebiad.

Rhoddi copi o'r wybodaeth i'r Cynghorydd Carys H. Evans.

(c) Eitem 24 – Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Cyfarfu Is-bwyllgor i edrych drwy'r Rheolau Sefydlog a **phenderfynwyd** fod y Clarc yn eu haddasu fel bo'r angen ac yn cyflwyno copi i'r cyfarfod nesaf.

(ch) **Plannu blodau**

Adroddwyd fod blodau wedi cael eu plannu yn y pump casgen a diolchwyd i bawb fu'n ymgymryd â'r gwaith. Dywedodd y Clarc fod blodau ar ôl a **phenderfynwyd** prynu casgen ychwanegol i'w gosod yn Mryn Mawr Sarn a gofyn i Mrs. Sian Hughes, Fferm Bryn Mawr blannu'r blodau.

31. **CAIS CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais i'w drafod.

32. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Penderfynwyd

(a) Anfon y materion a ganlyn i sylw'r adrannau perthnasol yng Nghyngor Gwynedd:

Dŵr yn llifo ar wyneb y ffordd o Brookside i lawr am Siop y Bont, Llangwnnadl – hyn y trydydd tro i dynnu sylw at y broblem.

Lôn Llety, Bryncroes – nodi fod gwaith barbio da wedi digwydd ar y ffordd gefn yma ond tybed a fyddai modd cael barbio'r drain a'r brigiau sy'n disgyn i lawr.

Angen difa'r planhigyn 'Japanese Knotweed' sy'n tyfu ger Llety, Bryncroes, wrth y bont ym Mryncroes a'r triongl yn Sarn.

Gofyn a ddylai'r arwydd 'Falconry' fod yn ddwyieithog yng nghroesffordd Siop Lwyd, Bryncroes.

Cais am gael arwydd i ddynodi lleoliad Capel Ty Mawr ym Mhedair Croeslon gan fod yr adeilad yn hanesyddol.

33. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol a **phenderfynwyd cyfrannu:**

Cae Chwarae Sarn	£100 (siec 200834)
Cyfeillion Eglwys Llandegwnning (at y fynwent)	£125 (siec 200835)
Mynwent Eglwys Botwnnog	£125 (siec 200836)

O berthynas i gais Cyngor Cymuned Llanengan am gyfraniad tuag at Menter Rabar **penderfynwyd** gwneud ymholiadau â Un Llais Cymru a oes gan y Cyngor hawl i gyfrannu, a thrafod y cais ymhellach ym mis Medi.

34. **AWDUDOD I DALU**

Awdurdodwyd talu Canolfan Arddio Tyddyn Sachau **£39.99** (siec 200837) am farel/casgen flodau i Fryn Mawr.

35. **COSTAU YNNI**

Derbyniwyd pryder gan rai o drigolion yr ardal ynglyn a'r posibilrwydd bydd costau ynni yn cynyddu unwaith yn rhagor yn yr Hydref, a gofyn am i'r Cyngor anfon y sylw yma ymlaen.

Penderfynwyd anfon at yr Liz Saville Roberts yr Aelod Senddol gyda chopi i Mabon ap Gwynfor, Aelod Seneddol Cymru, yn gofyn iddynt leisio barn a phryder lleol ynglyn a hyn.

36. **AHNE**

Tynnwyd sylw gan Sian Parri fod angen penodi cynrychiolydd ar Bwyllgor AHNE. Nodwyd fod Y Cynghorydd Iwan James Williams eisoes wedi benodi i gynrychioli Cyngor Botwnnog felly nad oedd angen penodi person arall.

37. **CASGLU YSBWRIEL**

Dywedodd Y Cynghorydd Elin Hughes fod trefniadau ar y gweill i'r aelodau fyddai'n dymuno a gallu dod, i gasglu ysbwriel ym Motwnnog, Sarn a Bryncroes ac y byddai nodyn o'r dyddiadau yn cael eu hanfon allan gan y Clarc.